# Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

# Polisi Talu Ffioedd Dysgu (a thaliadau cysylltiedig i fyfyrwyr)

# 2025-26

| Adolygiad Polisi | | |
|---|---|---|
| **Rhif Fersiwn** | **Dyddiad Gweithredol** | **Awdur y Newidiadau** |
| 1.0 | Tachwedd 2024 | Mark Davies |
| 1.1 | Rhagfyr 2024 | Mark Davies |

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**Cynnwys:** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| Rhagymadrodd a Chwmpas | 3 |
| Egwyddorion cyffredinol sy'n effeithio ar Ffioedd Dysgu CBCDC | 3 |
| Cynnydd i Ffioedd Dysgu | 5 |
| Ffioedd a Chyllid | 7 |
| - Ffioedd dysgu | 7 |
| - Dulliau talu | |
| - Myfyrwyr a Ariennir gan CBM | 8 |
| - Myfyrwyr rhyngwladol | 8 |
| - Myfyrwyr a noddir | 8 |
| - Ffioedd Dysgu - Categorïau Talu a Disgowntiau | 9 |
| - Ffioedd dysgu – adennill dyledion | 11 |
| - Rheolau Gwahardd | 11 |
| - Caledi ariannol | 13 |
| - Holl ddyledwyr eraill | 13 |
| Cysylltiadau defnyddiol | 14 |
| **Atodiad 1, Adennill Dyledion – Ffioedd Dysgu** | 15 |
| **Atodiad 2, Tynnu Allan / Toriad o Astudiaethau / Trosglwyddiadau / Ad-daliadau** | 17 |

## 1. Rhagymadrodd a Chwmpas

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (y cyfeirir ato drwy'r polisi hwn fel "CBCDC" neu "y Coleg") yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Brifysgol De Cymru ("PDC"). Mae CBCDC yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Brifysgol De Cymru (PDC). Mae CBCDC yn cynnig ac yn darparu dyfarniadau Addysg Uwch achrededig y DU. Dilysir y dyfarniadau hyn gan Brifysgol De Cymru. Mae myfyrwyr yn dilyn cyrsiau yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru sy'n arwain at Raddau/dyfarniadau Prifysgol De Cymru

**Cwmpas**: Mae'r polisi'n cwmpasu taliadau ffioedd dysgu sy'n daladwy gan Fyfyrwyr i CBCDC a mathau eraill o ffioedd (megis llety a ffioedd dysgu 1-1).

At ddiben y polisi hwn, diffinnir "**Myfyrwyr**" fel unigolion cofrestredig neu sydd wedi'u cofrestru yn y Coleg i ddilyn rhaglen astudio.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r atebolrwydd i dalu ffioedd dysgu, pwy sydd angen eu talu, pryd a sut y cânt eu talu a pha gamau y gallai'r Coleg eu cymryd os na chânt eu talu.

## 2. Egwyddorion cyffredinol sy'n effeithio ar Ffioedd Dysgu CBCDC

Mae gwybodaeth gyffredinol am ffioedd dysgu a chyllid ar gael ar wefan y Coleg - Ffioedd

Mae CBCDC yn codi ffioedd dysgu am ddarparu ei gyrsiau ac mae gan fyfyrwyr gyfrifoldeb yn y pen draw am atebolrwydd a thalu ffioedd.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cwrs a addysgir yn y Coleg gan gynnwys cyrsiau israddedig, ôl-raddedig, graddau sylfaen ac Astudio Dramor. Codir yr holl ffioedd dysgu mewn GBP (oni nodir yn wahanol).

Bydd CBCDC yn creu anfoneb am y ffioedd dysgu. Mae rhwymedigaeth gontractiol ar fyfyrwyr i dalu'r ffioedd dysgu a'r holl daliadau perthnasol eraill (gan gynnwys unrhyw flaendaliadau, lle bo'n berthnasol) ar y dyddiadau y maent yn ddyledus ar ôl derbyn cynnig a wnaed gan CBCDC. Os yw trydydd parti yn talu'r ffioedd ac nad yw'r taliad yn cael ei wneud yn llawn erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus, bydd CBCDC yn ystyried anfonebu'r myfyriwr yn bersonol am unrhyw weddill sy'n ddyledus.

Os bydd myfyriwr ddim yn talu'r ffioedd dysgu, mae CBCDC yn cadw'r hawl i atal a/neu dynnu myfyrwyr yn ôl o'u hastudiaethau.

Gall CBCDC ddod â chontract i ben yn unol â'r telerau hyn ac fel y'u diffinnir ymhellach yn y **Telerau ac Amodau Derbyn**. Ar gyfer myfyrwyr sydd â fisa Llwybr Myfyrwyr, bydd hefyd yn ofynnol i CBCDC roi gwybod i'r UKVI eu bod wedi tynnu myfyriwr oddi ar y cwrs. Bydd yr UKVI wedyn yn cymryd camau i gwtogi ar y fisa, a bydd yn rhaid i'r myfyriwr adael y DU.

Ar ôl cofrestru, mae'n bosibl y bydd myfyrwyr sy'n penderfynu tynnu allan o'r cwrs yn dal i fod yn atebol i dalu costau eraill mewn contractau eraill y maent wedi ymrwymo iddynt, gan gynnwys taliadau rhent am lety. Gall hyn gynnwys contractau yr ymrwymir iddynt gyda phartïon nad ydynt yn perthyn i'r Coleg.

**Ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol**:

Rhaid talu isafswm blaendal, fel y nodir yn y llythyr cynnig, i'r Coleg cyn y gellir rhoi datganiad CAS. Bydd y blaendal yn cael ei gadw yn erbyn ffioedd cwrs.

Mae'r blaendal yn gallu cael ei ad-dalu fel y nodir yn y **Telerau ac Amodau Derbyn**, a anfonwyd ar adeg y cynnig. *Gweler y tabl yn Atodiad 1 isod*. Gall ad-daliadau fod yn amodol ar dâl gweinyddu.

Efallai na fydd angen i fyfyrwyr a noddir gan y llywodraeth dalu blaendal ond bydd angen iddynt ddarparu tystiolaeth wreiddiol o'r nawdd.

## 3. Cynnydd i Ffioedd Dysgu

Mae'r ffioedd dysgu ar gyfer y flwyddyn astudio gyntaf wedi'u nodi yn y llythyr cynnig.

Mae'n bwysig deall y gall ffioedd dysgu gynyddu bob blwyddyn, mae'r isod yn amlinellu'r broses hon.

| **Myfyrwyr Cartref** |
|---|
| Llywodraeth Cymru sy'n llywodraethu uchafswm y Ffioedd Dysgu blynyddol ar gyfer myfyrwyr cartref ar gyrsiau israddedig llawn amser, sy'n £9,535 ar hyn o bryd.[1]<br><br>Gall y ffi uchaf y gallwn ei chodi arnoch am bob blwyddyn o'ch cwrs godi uwchlaw £9,535pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu lefel y ffioedd a ganiateir. Er nad yw'n bosibl rhagweld a fydd cynnydd, neu faint y gall y cynnydd fod, dylech nodi iddo gael ei gynyddu o £9,000 i £9,535 gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2024.<br><br>Bydd y Coleg ond yn cynyddu lefel y Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion cartref yn flynyddol pan fo Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynnydd a ganiateir.<br><br>Ar gyfer myfyrwyr cartref ar gyrsiau ôl-raddedig, byddwn yn adolygu ac efallai'n cynyddu eich Ffioedd Dysgu bob blwyddyn cyn i'r flwyddyn academaidd ddechrau. Mae'r newidiadau hyn oherwydd costau cynyddol darparu ein cyrsiau i chi, a elwir yn chwyddiant. Fel arfer byddwn yn cynyddu eich ffioedd dysgu ar sail chwyddiant, ond er sicrwydd ni fydd cynnydd yn digwydd fwy nag unwaith y flwyddyn ac mae wedi'i gapio ar naill ai'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) cyfredol yn ogystal â 3% neu £2,000, pa un bynnag yw'r isaf.<br><br>Bydd unrhyw benderfyniad ar gynyddu Ffioedd Dysgu yn cael ei gadarnhau gan CBCDC cyn gynted â phosibl. Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth glir, ddealladwy, diamwys ac amserol am unrhyw gynnydd mewn ffioedd mewn da bryd, cyn y flwyddyn academaidd nesaf.<br><br>Os bydd cynnydd yn y Ffioedd Dysgu a bod cynnydd o'r fath yn cael effaith andwyol arnoch, bydd gennych yr opsiwn i roi'r gorau i'ch lle ar y cwrs ac ni fydd cosb am wneud hynny os byddwn wedi derbyn eich cais i derfynu cyn dechrau'r Flwyddyn Academaidd nesaf yn dilyn cynnydd mewn Ffioedd Dysgu. |

| **Myfyrwyr Rhyngwladol** |
|---|
| Mae CBCDC yn adolygu a gall gynyddu eich Ffioedd Dysgu bob blwyddyn cyn i'r flwyddyn academaidd ddechrau. Mae'r newidiadau hyn oherwydd costau cynyddol (chwyddiant) darparu Cyrsiau i fyfyrwyr. Yn nodweddiadol, cynyddir ffioedd dysgu ar sail chwyddiant; er mwyn ychwanegu mwy o sicrwydd bydd y cynnydd yn cael ei gymhwyso dim mwy nag unwaith y flwyddyn a'i gapio ar naill ai'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) cyfredol yn ogystal â 3% neu £2,500, pa un bynnag sydd isaf.<br><br>Bydd unrhyw benderfyniad ar gynyddu Ffioedd Dysgu yn cael ei gadarnhau gan CBCDC cyn gynted â phosibl. Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth glir, ddealladwy, diamwys ac amserol am unrhyw gynnydd mewn ffioedd mewn da bryd, cyn y flwyddyn academaidd nesaf.<br><br>Os bydd cynnydd yn y Ffioedd Dysgu a bod cynnydd o'r fath yn cael effaith andwyol arnoch, bydd gennych yr opsiwn i roi'r gorau i'ch lle ar y cwrs ac ni fydd cosb am wneud hynny os byddwn wedi derbyn eich cais i derfynu cyn dechrau'r Flwyddyn Academaidd nesaf yn dilyn cynnydd mewn Ffioedd Dysgu.<br><br>**Os bydd myfyriwr rhyngwladol yn arfer ei hawl i ganslo ei Gontract, a'i fod yn cael nawdd Llwybr Myfyrwyr PDC, bydd yn ofynnol i CBCDC roi gwybod i'r UKVI ei fod yn tynnu allan o'r cwrs. Bydd yr UKVI wedyn yn cymryd camau i gwtogi ar y fisa a bydd yn rhaid i'r myfyriwr adael y DU.** |

### Nodiadau ychwanegol ynghylch newidiadau i ffioedd

[1] *Mewn grym o 1 Medi 2025; Data yn gywir ar 6 Rhagfyr 2024*

- Codir tâl ar fyfyrwyr sy’n trosglwyddo i ddull astudio gwahanol (e.e. llawn amser i ran-amser neu i’r gwrthwyneb) yn unol â threfn ffioedd y flwyddyn academaidd y maent yn trosglwyddo ynddi.
- Codir tâl ar fyfyrwyr sy’n tynnu allan o astudiaethau neu’n cael toriad mewn astudio am gyfnod hwy nag unrhyw gyfnod gwyliau (ar wahân i doriad swyddogol i’w hastudiaethau) yn unol â threfn ffioedd y flwyddyn academaidd pan fyddant yn dychwelyd i astudio, lle bo’n berthnasol.
- Bydd myfyrwyr llawn amser sy’n ailadrodd blwyddyn lawn o astudio yn parhau i orfod talu’r ffi llawn amser sy’n berthnasol i’r drefn ffioedd sydd ar waith ar ddechrau eu cwrs presennol.
- Codir tâl ar fyfyrwyr israddedig llawn amser sy’n ailadrodd llai na 120 credyd yn unol â nifer y credydau a gymerwyd pro-rata i’r ffi amser llawn sy’n berthnasol i’r drefn ffioedd sydd ar waith ar ddechrau eu cwrs presennol.
- Codir tâl ar fyfyrwyr ôl-raddedig llawn amser sy’n astudio/ailadrodd llai na 180 o gredydau yn unol â nifer y credydau a gymerwyd pro-rata i’r ffi amser llawn sy’n berthnasol i’r drefn ffioedd sydd ar waith ar ddechrau eu cwrs presennol (ac eithrio pan fo’r cwrs ei hun yn llai na 180 credyd i gyd).
- Codir tâl ar fyfyrwyr rhan-amser sy’n ailadrodd credydau yn unol â’r drefn ffioedd y gwnaethant ddechrau arni.
- Myfyrwyr sy’n tynnu allan o’u hastudiaethau, yn trosglwyddo neu’n cael toriad o’u hastudiaethau: gweler atodiad 2.

## 4. Ffioedd a Chyllid

Rhoddir gwybodaeth gyffredinol am ffioedd dysgu yn adrannau 2 a 3 uchod ac ar wefan y Coleg: Ffioedd a Chyllid.

### 4.1 Atebolrwydd am Ffioedd Dysgu

Bydd myfyrwyr yn cael gwybodaeth berthnasol am ffioedd, taliadau a rheoli dyledion drwy gydol eu taith gyda'r Coleg. Mae hyn yn cynnwys: y cam ymgeisio a chael cynnig; cyn cofrestru; cyn dyddiad dechrau'r Coleg ac ar ôl cofrestru/dyddiad dechrau'r cwrs a thrwy gydol eu hastudiaethau gyda'r Coleg.

### 4.2 Ffioedd Dysgu

Daw'r myfyriwr yn atebol am y ffioedd dysgu o'r dyddiad y derbynnir y cynnig. Mae gan y myfyriwr hawl i ganslo a thynnu allan o astudiaethau yn ystod cyfnod o 14 diwrnod o'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn ymrwymo i'r contract (h.y. y diwrnod y mae'r myfyriwr yn derbyn y cynnig).

Mae opsiynau talu wedi'u nodi yn 4.9 isod.

Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr rhyngwladol dalu blaendaliadau cyn y dyddiadau hyn. Ceir rhagor o fanylion yn 4.7 isod.

*Cyfeiriwch hefyd at Atodiad 1 Polisi Casglu Dyledion Ffioedd Dysgu am ragor o fanylion.*

### 4.3 Taliadau eraill myfyrwyr

Mae enghreifftiau o daliadau eraill gan fyfyrwyr yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ffioedd llety sy'n gysylltiedig ag Astudio Dramor, hyfforddiant cerddoriaeth 1-1 ychwanegol ac ati.

Mae anfonebau i'w talu o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr anfoneb (neu gais am daliad).

### 4.4 Dulliau Talu

Mae'r Coleg yn defnyddio partner allanol i ddarparu ffordd syml a diogel i fyfyrwyr dalu ffioedd ar-lein.

Mae rhagor o fanylion yma: Gwybodaeth Talu

Ni ddylai taliadau gael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif banc y Coleg. Dylai unrhyw fyfyrwyr sydd ddim yn gallu defnyddio'r cyswllt partner diogel anfon e-bost at dîm Cyllid CBCDC finance@rwcmd.ac.uk cyn eu dyddiadau talu i ofyn am gyngor. Peidiwch â thalu ffioedd dysgu i unrhyw drydydd parti.

### 4.5 Nodiadau Ychwanegol:

- Ni chaniateir i fyfyrwyr gofrestru mewn unrhyw flwyddyn academaidd ddilynol os oes ganddynt unrhyw ddyled heb ei thalu i CBCDC yn y flwyddyn flaenorol.
- Myfyrwyr sy'n gyfrifol am dalu'r holl ffioedd a geir tra'n astudio yn y Coleg. Os bydd y myfyriwr yn gadael y Coleg gyda dyled heb ei thalu, gall y Coleg ddilyn y broses casglu dyledion (a nodir yn fanylach yn Atodiad 1) i adennill y ddyled sy'n ddyledus.
- Os yw myfyriwr yn cael ei noddi ac nad yw'r noddwr yn talu'r ddyled, y myfyriwr sy'n atebol yn y pen

draw am y ddyled hon.

- Os yw myfyriwr yn cael ei ariannu gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ("CBM"), a bod CBM yn dirymu'r cyllid hwn, y myfyriwr sy'n atebol yn y pen draw am y ddyled hon.

### 4.6 Myfyrwyr a Ariennir gan CBM

Os yw myfyriwr yn cymryd benthyciad gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i dalu ffioedd dysgu, rhaid i'r myfyriwr wneud trefniadau gyda'r CBM cyn cofrestru ar ei raglen astudio.

Os yw myfyriwr yn cael ei ariannu gan yr CBM, a'r CBM yn dirymu'r cyllid hwn, y myfyriwr sy'n atebol yn y pen draw am y ddyled hon.

### 4.7 Myfyrwyr Rhyngwladol:

Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr sy'n cael eu hystyried fel myfyrwyr rhyngwladol dalu eu ffioedd dysgu fel a ganlyn:

- Lle mae'r ymgeisydd angen Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS) er mwyn gwneud cais am fisa, rhaid talu'r **isafswm blaendal** neu rhaid darparu prawf o nawdd <u>cyn</u> i'r CAS gael ei roi.
- Mae **isafswm blaendal** yn cael ei gyfrifo yn **£5,000** (nid yw ysgoloriaethau neu ddyfarniadau a disgowntiau eraill yn cael eu didynnu at ddibenion blaendal)
- Eithriadau i hyn yw'r cwrs Saesneg Cyn-sesiynol 10 wythnos, lle mae'n ofynnol i fyfyrwyr dalu 100% o gyfanswm y ffi net cyn mynychu.
- Rhaid talu gweddill y ffioedd yn llawn ar neu cyn dyddiad dechrau'r cwrs neu yn unol â'r opsiynau talu a nodir ym mharagraff 4.9 isod.

### 4.8 Myfyrwyr a Noddir:

Rhaid i fyfyrwyr y bydd eu ffioedd yn cael eu talu gan noddwr, e.e. cyflogwr neu Lysgenhadaeth, ddarparu prawf o nawdd wrth gofrestru, neu cyn cofrestru, bob blwyddyn o'u rhaglen astudio. Os na ddarperir hyn, anfonebir y myfyriwr yn unol â hynny a bydd yn atebol am ei ffioedd dysgu.

Efallai na fydd myfyrwyr rhyngwladol a noddir gan eu llywodraeth neu gan gwmni yn gymwys i gael ysgoloriaethau.

Mae prawf o nawdd yn cynnwys e-bost, llythyr neu gadarnhad digidol arall (wedi'i gadarnhau i fod yn dderbyniol i CBCDC). Rhaid i'r ohebiaeth gael ei chyfeirio at Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, oddi wrth y Noddwr.

Rhoddir gwybod i fyfyrwyr os bydd eu noddwr yn dal heb dalu eu ffioedd dysgu ar ôl 28 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb. Os yw myfyriwr yn cael ei noddi ac nad yw'r noddwr yn talu'r ddyled sy'n ddyledus, y myfyriwr sy'n atebol yn y pen draw am y ddyled hon.

## 4.9 Ffioedd Dysgu - Categorïau Talu a Disgowntiau

### 1. Myfyrwyr a hunan-ariennir (myfyrwyr cartref a rhyngwladol)

- **Myfyrwyr Cartref** - gellir talu ffioedd yn syth ar neu cyn dyddiad dechrau'r cwrs

- **Myfyrwyr Rhyngwladol** – nodir y manylion ym mharagraff 4.7 uchod

### 2. Myfyrwyr a ariennir trwy fenthyciad

Benthyciadau israddedig a ariennir gan Gyllid Myfyrwyr (SFE/SFW/SFNI/SAAS) – telir y benthyciad yn uniongyrchol i'r Coleg gan y cyllidwr. Nid oes angen unrhyw gamau pellach.

Benthyciadau ôl-raddedig a ariennir gan Gyllid Myfyrwyr (SFE/SFW) – telir y benthyciad i'r myfyriwr i'w dalu i'r Coleg (fel arfer mewn 3 rhandaliad, un bob tymor). Ar gyfer SFNI a SAAS – telir y benthyciad yn uniongyrchol i'r Coleg gan y cyllidwr. Mae'r myfyriwr yn trefnu taliad am unrhyw falans ffioedd dysgu sy'n ddyledus/heb ei ariannu.

Myfyrwyr rhyngwladol – os ydych yn talu am eich ffioedd dysgu gyda benthyciad drwy gynllun benthyciadau myfyrwyr eich gwlad gartref, yna sicrhewch fod hyn yn cael ei ddatgan yn gywir yn ystod y broses gofrestru gan fod taliadau fel arfer yn cael eu hanfon i'r Coleg yn uniongyrchol (e.e. Benthyciadau Cymorth UDA / Ffederal).

### 3. Myfyrwyr a noddir

Lle mae ffioedd dysgu myfyrwyr a noddir yn cael eu talu gan sefydliad (neu gorff y llywodraeth) - dylid darparu llythyr tystiolaeth cyn neu yn ystod y broses gofrestru. Ni ddylai noddwr fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind nac yn aelod o'r cyhoedd.

### Disgowntiau

### 1. Disgownt Setliad Cynnar

Gall CBCDC gynnig **Disgownt Setliad Cynnar ("ESD")** i fyfyrwyr sy'n talu eu ffioedd dysgu yn llawn (ar ôl unrhyw ysgoloriaethau/bwrsarïau a weinyddir gan y Coleg) ac a gliriwyd yng nghyfrif y Coleg o fewn 14 diwrnod calendr i Ddyddiad Dechrau'r Cwrs. Nodir y manylion isod.

**Disgownt Setliad Cynnar**

Os yw'r myfyriwr yn dewis talu'n llawn ar adeg cofrestru, efallai y bydd yn gymwys i gael Gostyngiad Setliad Cynnar (ESD) gwerth 2% o'r ffi dysgu net sy'n daladwy (h.y. ffioedd dysgu sy'n ddyledus ar ôl tynnu unrhyw ysgoloriaethau neu ostyngiadau eraill) cyn belled â bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- Mae'r myfyriwr yn Fyfyriwr Rhyngwladol sydd wedi cofrestru ar gwrs israddedig llawn amser sy'n astudio, ac yn talu am, 120 credyd mewn blwyddyn, ac yn talu'r ffi ei hun. Neu
- Mae'r myfyriwr wedi cofrestru fel myfyriwr llawn amser ar gwrs ôl-raddedig, yn talu am y ffi lawn o 180 credyd ym mlwyddyn 1, ac yn talu'r ffi ei hun.

Nodwch:

- Nid yw ESD yn berthnasol i fyfyrwyr israddedig cartref neu fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar flwyddyn lleoliad.
- Rhaid talu'r ffioedd yn llawn dim hwyrach nag 14 diwrnod calendr ar ôl dyddiad dechrau eu cwrs neu fel y nodir ar eu cofnod academaidd, pa un bynnag fo ddiweddaraf.
- Ni fydd unrhyw fyfyriwr sy'n disgwyl gostyngiad yn ei ffi dysgu flynyddol oherwydd terfyniad neu ostyngiad mewn credydau trethadwy bellach yn gymwys ar gyfer Gostyngiad Setliad Cynnar.

- Ni fydd unrhyw fyfyriwr sy'n cytuno ar Gynllun Rhandaliadau (isod) yn gymwys ar gyfer ESD.

Mae rhagor o fanylion i'w cael yma:
Disgownt Setliad Cynnar

**2. Disgownt cynfyfyrwyr neu Ysgoloriaeth i raddedigion ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig**
Ar hyn o bryd mae'r Coleg yn cynnig disgownt cynfyfyrwyr (fel Ysgoloriaeth Graddedig o fynediad 2026) ar ffioedd dysgu i holl fyfyrwyr ôl-raddedig CBCDC a Phrifysgol De Cymru sy'n astudio ar gyfer MA, MMus neu Gwrs Diploma Ôl-raddedig yn CBCDC.

Mae rhagor o fanylion i'w cael yma:
Ysgoloriaeth i raddedigion ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig

**Taliadau mewn rhandaliadau**
Mae ffioedd dysgu yn ddyledus ar neu cyn Dyddiad Dechrau'r Cwrs (o fewn 14 diwrnod calendr) i fod yn gymwys ar gyfer y gostyngiad setliad cynnar. Os na thelir ffioedd fel hyn, maent yn daladwy fel a ganlyn:

| **Myfyrwyr Cartref Cwrs Israddedig (Hunan-ariannu)** | **Swm sy'n ddyledus – cyfran o'r ffi dysgu [2]** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Tymor 1 | Traean | Dyddiad Cychwyn y Cwrs: Tymor yr Hydref (o fewn 14 diwrnod calendr) |
| Tymor 2 | Traean | Diwrnod 1: Tymor y Gwanwyn |
| Tymor 3 | Traean | Diwrnod 1: Tymor yr Haf |

| **Myfyrwyr Cartref Cyrsiau Ôl-raddedig (Hunan-ariannu)** | **Swm sy'n ddyledus – cyfran o'r ffi dysgu [3]** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Tymor 1 | Traean | Dyddiad Cychwyn y Cwrs: Tymor yr Hydref (o fewn 14 diwrnod calendr) |
| Tymor 2 | Traean | Diwrnod 1: Tymor y Gwanwyn |
| Tymor 3 | Traean | Diwrnod 1: Tymor yr Haf |

[2] *Balans ffi addysgu yw ar ôl didynnu unrhyw ysgoloriaethau neu fwrsariaethau*
[3] *Balans ffi addysgu yw ar ôl didynnu unrhyw ysgoloriaethau neu fwrsariaethau*

| **Myfyrwyr Rhyngwladol Cyrsiau Israddedig/Ôl-raddedig (Hunan-ariannu)** | **Swm sy'n ddyledus – cyfran o'r ffi dysgu[4]** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Ar gais am CAS | £5,000.00 | Yn amrywio – Ebrill i Awst cyn Dyddiad Cychwyn y Cwrs. Rhaid ei dalu ar dderbyn eich cynnig erbyn dyddiad cau CAS. |
| Tymor 1 | 50% o'r balans sy'n weddill | Dyddiad Cychwyn y Cwrs: Tymor yr Hydref (o fewn 14 diwrnod calendr) |
| Tymor 2 | 25% o'r balans sy'n weddill | Diwrnod 1: Tymor y Gwanwyn |
| Tymor 3 | 25% o'r balans sy'n weddill | Diwrnod 1: Tymor yr Haf |

*Nodyn: Ni chaiff unrhyw ysgoloriaethau rhyngwladol eu tynnu o'r blaendal cychwynnol.*

**Enghraifft (1) - Dyddiadau taliad dyledus myfyriwr (dim ysgoloriaeth):**

Ar gyfer 2024/25 ffi ddysgu MMus (cwrs 2 flynedd) am y flwyddyn yw £26,500, byddai taliadau'n ddyledus fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| Ar gais CAS | £5,000 |
| Wrth gofrestru neu cyn hynny | £10,750 |
| Tymor y Gwanwyn (diwrnod 1) | £5,375 |
| Tymor yr Haf (diwrnod 1) | £5,375 |
| **Cyfanswm y ffioedd ar gyfer 2024/25** | **£26,500** |

**Enghraifft (2) - Dyddiadau taliad dyledus myfyriwr (gydag ysgoloriaeth):**

Ar gyfer 2024/25 ffi ddysgu MMus (cwrs 2 flynedd) am y flwyddyn yw £26,500 a lle dyfarnwyd ysgoloriaeth o £5,000 i fyfyriwr (ffioedd net yn ddyledus o £21,500), byddai taliadau'n ddyledus fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| Ar gais CAS | £5,000 |
| Wrth gofrestru neu cyn hynny | £8,250 |
| Tymor y Gwanwyn (diwrnod 1) | £4,125 |
| Tymor yr Haf (diwrnod 1) | £4,125 |
| **Cyfanswm y ffioedd ar gyfer 2024/25** | **£21,500** |

[4] *Balans ffi addysgu yw ar ôl didynnu unrhyw ysgoloriaethau neu fwrsariaethau*

### 4.10 Adennill Dyledion Dysgu

**Dyledion sy'n Ddyledus:** mae hyn yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol:

- Ar gyfer unrhyw fyfyriwr sydd â ffioedd dysgu heb eu talu ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs, a heb gynllun rhandaliadau y cytunwyd arno yn ei le ar gyfer gwerth llawn eu rhwymedigaeth ffioedd dysgu
- Ar gyfer unrhyw fyfyriwr sydd â ffioedd dysgu heb eu talu ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs, lle mae cytundeb rhandaliadau wedi'i ganslo neu'n diffygdalu

Bydd hyn yn golygu bod y myfyriwr yn **ddyledwr** ac yn ddarostyngedig i sancsiynau'r Coleg ar gyfer adennill dyledion, a all gynnwys rhai neu bob un o'r camau canlynol:

- Gall y Coleg benodi asiantau i gynorthwyo gyda gweinyddu a chasglu dyledion sydd heb eu talu
- Nodiadau atgoffa ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost neu ddulliau cyfathrebu digidol eraill) gan y Coleg
- Atgoffa am y telerau a nodir yn y **Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr**
- Tynnu allan yn raddol o weithgareddau ac adnoddau'r Coleg (gan gynnwys dirymu mynediad TG)
- Gwahardd y myfyriwr rhag astudio yn y Coleg
- Diddymu hawl y myfyriwr i fynychu'r Seremoni Raddio
- Peidio â rhoi Tystysgrif(au) a Thrawsgrifiad(au) i'r myfyriwr
- Atgyfeiriad at asiantaeth casglu dyledion trydydd parti

Gweler Atodiad 1 'Polisi Adennill Dyledion' am ragor o fanylion.

**Rhaid clirio pob dyled ffioedd dysgu cyn y caniateir i fyfyriwr ail-gofrestru neu ryddhau ei Dystysgrif neu Drawsgrifiad.**

Bydd Adran Gyllid y Coleg yn rhoi diweddariadau rheolaidd am ddyledion heb eu talu a chamau adennill dyledion i'r Penaethiaid Astudiaethau, Cofrestrydd y Coleg a Bwrdd Academaidd y Coleg.

### 4.11 Rheolau Gwahardd

**Myfyrwyr Cartref**

Pan fo myfyriwr wedi'i wahardd o'r Coleg am beidio â thalu ffioedd dysgu, ni chaniateir iddo ef neu hi ddychwelyd i gwblhau gweddill y flwyddyn academaidd honno.

**Myfyrwyr Rhyngwladol (myfyrwyr Llwybr Myfyrwyr)**

Os bydd myfyriwr Llwybr Myfyrwyr yn cael ei wahardd rhag parhau â'i astudiaethau o ganlyniad i gamau adennill dyledion, anfonir llythyr gan yr Adran Gyllid yn hysbysu'r myfyriwr o hyn. O fewn 10 diwrnod gwaith i hyn, bydd Cofrestrydd y Coleg yn adrodd am y myfyriwr wrth Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI) yn unol â chyfrifoldebau cydymffurfio Llwybr Myfyrwyr Prifysgol De Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn golygu bod PDC a CBCDC yn tynnu ei nawdd yn ôl a bydd UKVI yn cwtogi fisa'r myfyriwr. Bydd Cofrestrydd y Coleg yn ysgrifennu at y myfyriwr yn cadarnhau bod hyn wedi'i wneud. Yn y llythyr hwn bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu, yn unol ag amodau ei fisa, na fydd yn cael gweithio yn y DU mewn unrhyw

swyddogaeth mwyach. Yn ogystal, cynghorir y myfyriwr i adael y DU cyn gynted â phosibl a gofynnir iddo ef neu hi ddarparu cadarnhad o drefniadau teithio. Os bydd y myfyriwr yn dymuno dychwelyd i barhau â'i astudiaethau yn y flwyddyn academaidd ganlynol, rhaid i'r myfyriwr dalu'r ffioedd sy'n ddyledus a thalu'r ffi dysgu lawn ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod cyn rhoddir Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS) newydd.

### 4.12 Caledi Ariannol

Mae'r Coleg yn cydnabod y gall rhai myfyrwyr wynebu caledi ariannol yn ystod eu hastudiaethau. Yn yr amgylchiadau hyn, anogir myfyrwyr yn gryf i gysylltu â'r Coleg cyn gynted â phosibl i drafod amgylchiadau unigol. Mae cymorth ar gael ac mae'n cynnwys:

- Gall Gwasanaethau Myfyrwyr helpu i gysylltu â'r Cynghorydd Arian Myfyrwyr a threfnu apwyntiad - studentservices@rwcmd.ac.uk
- Gall y Tîm Cyllid gynorthwyo gyda thalu ffioedd dysgu ac opsiynau talu - finance@rwcmd.ac.uk
- Cronfa caledi - Gwybodaeth y gronfa caledi

### 4.13 Gwybodaeth am Dynnu Allan, Trosglwyddiadau a Thoriad i Astudiaethau

Mae gwybodaeth am Dynnu Allan, Trosglwyddiadau a thoriad i astudiaethau i'w gweld yn y ddolen ganlynol:

https://hub.rwcmd.ac.uk/academic-services/withdrawal-and-taking-a-break-from-studies/

*Cyfeiriwch at Atodiad 2 'Polisi Myfyrwyr yn Tynnu Allan a Thoriad i Astudiaethau' am ragor o fanylion.*

### 4.14 Holl Ddyledion Eraill Myfyrwyr (gan gynnwys ffioedd Astudio Dramor)

**Rheoli Dyled**

Rhaid i'r Pennaeth Cyllid neu ei enwebai gytuno ar eithriadau i'r telerau talu safonol o 28 diwrnod.

Cyfrifoldeb yr Adran Gyllid yw anfon nodiadau atgoffa at ddyledwyr. Mae hyn yn cynnwys proses benodedig a bennir gan amser ac ymatebion gan y dyledwr.

Er y gall y weithdrefn adennill dyledion fod yn benodol i bob achos, gall yr Adran Gyllid gymryd y camau canlynol i adennill dyled:

- Nodiadau atgoffa ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost neu ddulliau cyfathrebu digidol eraill) gan y Coleg
- Cyfriflenni
- Atgyfeiriad at asiantaeth casglu dyledion trydydd parti

Gall peidio â thalu fod yn gyfystyr â thorri contract gyda'r Coleg. Gallai hyn arwain at roi rhybudd

terfynu cynnar ar gontractau neu gytundebau.

**Dolenni Defnyddiol**

**Llety**

https://www.rwcmd.ac.uk/accommodation

**Gwasanaethau Myfyrwyr**

studentservices@rwcmd.ac.uk / 029 2039 1406

**Myfyrwyr Rhyngwladol**

admissions@rwcmd.ac.uk

**Cyllid**

finance@rwcmd.ac.uk

**Convera**

Talu trwy Convera

Convera GlobalPay i Fyfyrwyr - Sut i wneud Taliad

## Atodiad 1 - Adennill Dyledion - Ffioedd Dysgu

**Dyledion sy'n Ddyledus:** mae hyn yn cynnwys y sefyllfaoedd canlynol:

- Ar gyfer unrhyw fyfyriwr sydd â ffioedd dysgu heb eu talu ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs, a heb gynllun rhandaliadau y cytunwyd arno yn ei le ar gyfer gwerth llawn eu rhwymedigaeth ffioedd dysgu
- Ar gyfer unrhyw fyfyriwr sydd â ffioedd dysgu heb eu talu ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs, lle mae cytundeb rhandaliadau wedi'i ganslo neu'n diffygdalu

Bydd hyn yn golygu bod y myfyriwr yn **ddyledwr** ac yn ddarostyngedig i sancsiynau'r Coleg ar gyfer adennill dyledion, a all gynnwys rhai neu bob un o'r camau canlynol:

- Gall y Coleg benodi asiantau i gynorthwyo gyda gweinyddu a chasglu dyledion sydd heb eu talu
- Nodiadau atgoffa ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost neu ddulliau cyfathrebu digidol eraill) gan y Coleg
- Atgoffa am y telerau a nodir yn y **Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr**
- Tynnu allan yn raddol o weithgareddau ac adnoddau'r Coleg (gan gynnwys dirymu mynediad TG)
- Gwahardd y myfyriwr rhag astudio yn y Coleg
- Diddymu hawl y myfyriwr i fynychu'r Seremoni Raddio
- Peidio â rhoi Tystysgrif(au) a Thrawsgrifiad(au) i'r myfyriwr
- Atgyfeiriad at asiantaeth casglu dyledion trydydd parti

Hysbysiadau a chamau a gymerir ar gyfer dyled heb ei thalu:

(i) **Hysbysiad 14 diwrnod** - 14 diwrnod ar ôl i'r taliad fod yn ddyledus
Anfonir nodyn atgoffa gan yr Adran Gyllid

(ii) **Hysbysiad 28 diwrnod** - 28 diwrnod ar ôl i'r taliad fod yn ddyledus
- Os byddwch yn anwybyddu'r hysbysiad hwn, bydd y Coleg yn gweithredu yn unol â'r **Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr**
- Rhoddir gwybod i Benaethiaid Astudiaeth a Chofrestrydd Academaidd nad yw'r myfyriwr wedi cadw at y telerau ac amodau a nodir yn y **Polisi Talu Ffioedd Dysgu**
- Gall y Coleg ddechrau lleihau'n raddol fynediad at rai gweithgareddau ac adnoddau'r Coleg
- Ystyrir eich bod wedi anwybyddu'r hysbysiad os na fyddwch yn ymateb o fewn saith diwrnod

(Sylwer – bydd diffyg ymgysylltu â *chyfathrebu rhesymol* ynghylch talu ffioedd dysgu yn cael ei drin yn unol â'r Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr, **lle gallai diffyg ymgysylltu olygu bod y cwrs mewn perygl)**

(iii) **Hysbysiad 42 diwrnod** - 42 diwrnod ar ôl i'r taliad fod yn ddyledus
- Os byddwch yn anwybyddu'r hysbysiad hwn, mae'r cwrs mewn perygl. Mae'n bosibl y cewch eich gwahardd o'r cwrs ac ni chaniateir i chi ailgofrestru tan y flwyddyn academaidd nesaf
- Bydd y Cofrestrydd Academaidd yn cael ei hysbysu
- Bydd y Bwrdd Academaidd yn derbyn rhestr o ddyledwyr ffioedd dysgu myfyrwyr i ystyried achosion unigol ar gyfer gwahardd

- Ystyrir eich bod wedi anwybyddu'r hysbysiad os na fyddwch yn ymateb o fewn saith diwrnod

**(iv) Llythyr cyn Gweithredu (LBA)**

- Unwaith na fydd y dyledwr yn fyfyriwr 'gweithredol' mwyach, anfonir llythyr ato/ati yn hysbysu nad yw wedi talu ei ffioedd dysgu sy'n weddill.
- Ar yr adeg hon bydd y dyledwr yn cael ei hysbysu bod ganddo/ganddi 14 diwrnod i dalu'r ffioedd sy'n ddyledus yn llawn, bydd methu â gwneud hynny yn arwain at drosglwyddo'r cyfrif i asiantaeth casglu dyledion trydydd parti.

**Cyfeirio at Asiantaeth Casglu Dyledion Trydydd Parti**

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i'r cyfrif gael ei drosglwyddo i'r asiantaeth casglu dyledion trydydd parti a fydd yn casglu dyled sy'n ddyledus i'r Coleg trwy gysylltu'n uniongyrchol â'r dyledwr. Gall yr asiantaeth casglu dyledion trydydd parti, ar ran y Coleg, gychwyn achos cyfreithiol i adennill y ddyled; gan gynnwys cael dyfarniad yn erbyn y dyledwr a gorfodi'r dyfarniad hwn.

Fel rhan o weithdrefnau adennill dyledion y Coleg, rydym yn defnyddio asiantaethau casglu dyledion trydydd parti. Dim ond pan fydd pob ymdrech fewnol wedi'i disbyddu y bydd y Coleg yn trosglwyddo materion i'w dwylo.

*(Gall y llinell amser hon newid mewn rhai amgylchiadau …. Cyfnodau pan fo'r coleg ar gau a chyfnodau arholiadau, ac ni ellir anfon nodiadau atgoffa at fyfyrwyr cofrestredig yn ystod y cyfnod hwn).*

**Ffioedd Dysgu sy'n Ddyledus – Noddwyr**

**Hysbysiad 14 diwrnod**
14 diwrnod calendr ar ôl dyddiad anfoneb, bydd yr Adran Gyllid yn anfon nodyn atgoffa at y noddwr bod ffioedd yn ddyledus i'w talu. Anfonir e-bost hefyd i gyfrif e-bost Coleg y myfyriwr, yn hysbysu bod ffioedd yn ddyledus i'w talu.

**Hysbysiad 28 diwrnod**
28 diwrnod calendr ar ôl dyddiad anfoneb, bydd yr Adran Gyllid yn anfon nodyn atgoffa at y noddwr yn dweud y gall y myfyriwr wynebu sancsiynau am beidio â thalu'r ffioedd sy'n ddyledus. Anfonir e-bost hefyd i gyfrif e-bost Coleg y myfyriwr.

**Hysbysiad 42 diwrnod**
42 diwrnod calendr ar ôl dyddiad anfoneb, bydd yr Adran Gyllid yn anfon nodyn atgoffa TERFYNOL i'r noddwr am daliad.

Yn dilyn hyn, anfonir LBA at y noddwr yn eu hysbysu bod ganddynt 14 diwrnod i dalu'r ffioedd sy'n ddyledus yn llawn. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu bod eu cyfrif yn cael ei drosglwyddo i asiantaeth casglu dyledion trydydd parti **neu'r ffioedd sy'n weddill yn cael eu trosglwyddo i gyfrif y**

**myfyriwr** (a fydd wedyn yn dod o dan y Polisi Casglu Dyledion ar gyfer Myfyrwyr sy'n Hunan-dalu).

*Sylwer - lle nad yw myfyrwyr bellach yn fyfyriwr 'gweithredol' neu lle nad yw myfyrwyr yn ymateb i gyfathrebu trwy gyfeiriad e-bost y Coleg, gellir anfon unrhyw gyfathrebu i gyfeiriadau e-bost personol neu gyfeiriadau cartref a gedwir ar y system cofnodion myfyrwyr.*

## Atodiad 2

**Tynnu Allan / Toriad o Astudiaethau / Trosglwyddiadau / Ad-daliadau**

### Rhagymadrodd

Mae'r rheoliadau hyn yn cyfeirio at lefel y ffioedd dysgu sydd i'w codi ar fyfyrwyr sy'n cael eu tynnu oddi ar eu cwrs/trosglwyddo o'u cwrs/sy'n cael toriad o'u hastudiaethau ran o'r ffordd drwy eu blwyddyn academaidd. Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi manylion am bolisi'r Coleg ynghylch talu unrhyw ad-daliad ffioedd dysgu sy'n ddyledus a'r weithdrefn ar gyfer gofyn am ad-daliad.

Y dyddiad y bydd myfyriwr yn tynnu allan o'i gwrs/cael toriad o'i astudiaethau/trosglwyddo at ddiben y rheoliadau hyn yw'r dyddiad a nodir ar gofnod y myfyriwr yn System Gwybodaeth Gweinyddu a Rheoli Myfyrwyr (SITS) y Coleg.

**Codir tâl ar fyfyriwr sy'n cael toriad o'i astudiaethau yn unol â'r rheolau uchod yn y flwyddyn y mae'r toriad yn digwydd. Pan fydd yn dychwelyd yn y flwyddyn academaidd ddilynol codir balans ffioedd y flwyddyn arno/arni (gan godi ffi blwyddyn lawn ar draws dwy flynedd academaidd i bob pwrpas) ar yr amod nad oes unrhyw newidiadau i'w cwricwlwm.**

Nid yw ffioedd dysgu o reidrwydd yn cronni'n gyfartal dros y flwyddyn academaidd ac oherwydd natur y costau gwahanol mae'n bosibl na fyddant yn cronni yn yr un modd ar gyfer gwahanol grwpiau o fyfyrwyr. Ni ddylid rhagdybio bod ffi dysgu tymor yn cyfateb i draean o'r ffi ddysgu flynyddol.

***Noder. Mae terfynu yn cyfeirio at doriad o astudiaethau, tynnu allan o gwrs neu drosglwyddo o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.***

Diffinnir taliadau ffioedd dysgu yn ôl y math o fyfyriwr e.e. p'un a yw'n 'Hunan-dalu' neu'n cael ei ariannu gan 'Gwmni Benthyciadau Myfyrwyr' (CBM). Mae myfyrwyr a noddir yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n hunan-dalu at ddibenion y rheoliadau hyn.

**Atebolrwydd ffioedd dysgu – myfyrwyr y DU**

**Myfyrwyr israddedig**
Mae atebolrwydd am ffioedd dysgu'r unigolyn fel a ganlyn:

a) Caniateir cyfnod gras o 14 diwrnod calendr ar ôl dyddiad dechrau swyddogol y cwrs ac ni fydd unrhyw atebolrwydd o ran ffioedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

b) Bydd myfyriwr sy'n terfynu astudiaethau ar ôl y cyfnod gras, ond cyn dechrau'r ail dymor, yn atebol am 25% o'i ffioedd dysgu.

c) Bydd myfyriwr sy'n terfynu astudiaethau ar ôl dechrau'r ail dymor, ond cyn dechrau'r trydydd tymor, yn atebol am 50% o'i ffioedd dysgu.

d) Bydd myfyriwr sy'n terfynu astudiaethau ar ôl dechrau'r trydydd tymor yn atebol am swm llawn ei ffioedd dysgu.

**Myfyrwyr Ôl-raddedig Llawn Amser**
Mae atebolrwydd am ffioedd dysgu ar gyfer y categori hwn o fyfyrwyr yn dibynnu ar y dyddiad:

a) Caniateir cyfnod gras o 14 diwrnod calendr ar ôl dyddiad dechrau swyddogol y cwrs ac ni fydd unrhyw atebolrwydd o ran ffioedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

b) Bydd myfyriwr sy'n terfynu astudiaethau ar ôl y cyfnod gras, ond cyn dechrau'r ail dymor, yn atebol am ffi 1 tymor.

c) Bydd myfyriwr sy'n terfynu astudiaethau ar ôl dechrau'r ail dymor, ond cyn dechrau'r trydydd tymor, yn atebol am ffi 2 dymor o ffioedd.

d) Bydd myfyriwr sy'n terfynu astudiaethau ar ôl dechrau'r trydydd tymor yn atebol i dalu ffioedd dysgu llawn.

**Myfyrwyr Ôl-raddedig rhan-amser**

Mae atebolrwydd am ffioedd dysgu ar gyfer y categori hwn o fyfyrwyr yn dibynnu ar y dyddiad:

a) Caniateir cyfnod gras o 14 diwrnod calendr ar ôl dyddiad dechrau swyddogol y cwrs ac ni fydd unrhyw atebolrwydd o ran ffioedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

b) Bydd myfyriwr sy'n terfynu astudiaethau ar ôl y cyfnod gras, ond cyn dechrau'r ail dymor, yn atebol am ffi 1 tymor.

c) Bydd myfyriwr sy'n terfynu astudiaethau ar ôl dechrau'r ail dymor, ond cyn dechrau'r trydydd tymor, yn atebol am 2 dymor o ffioedd.

d) Bydd myfyriwr sy'n terfynu astudiaethau ar ôl dechrau'r trydydd tymor yn atebol i dalu ffioedd dysgu llawn.

**2.4 Trosglwyddiadau i ac o Brifysgolion eraill – Myfyrwyr Israddedigion Cartref**

Bydd atebolrwydd am ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n trosglwyddo i Brifysgolion eraill yn seiliedig ar y dyddiad trosglwyddo.

a) Os bydd myfyriwr yn trosglwyddo i sefydliad arall yn ystod y tymor cyntaf ond cyn dechrau'r ail dymor, atebolrwydd ar gyfer ffioedd y myfyriwr i'r sefydliad cyntaf fydd 25% o'r benthyciad sydd ar gael. Bydd yr ail sefydliad yn gymwys i dderbyn 75% o weddill y benthyciad.

b) Os bydd myfyriwr yn trosglwyddo yn ystod yr ail dymor ond cyn dechrau'r trydydd tymor, atebolrwydd ar gyfer ffioedd y myfyriwr i'r sefydliad cyntaf fydd 50% o'r benthyciad sydd ar gael. Bydd yr ail sefydliad yn gymwys i dderbyn y 50% sy'n weddill o'r benthyciad sydd ar gael.

c) Os bydd myfyriwr yn trosglwyddo yn ystod y trydydd tymor, bydd y sefydliad cyntaf yn cael 100% o'r benthyciad sydd ar gael, ac ni fydd yr ail sefydliad yn gymwys i gael dim.

**2.5 Myfyrwyr Rhyngwladol - Myfyrwyr Israddedig ac Ôl-raddedig**

a) Ad-daliadau blaendal

Os byddwch yn canslo'r Contract hwn fel y nodir uchod o fewn 14 diwrnod o'r diwrnod y byddwch yn derbyn y cynnig o le, bydd y Coleg yn eich ad-dalu am yr holl daliadau a dderbyniwyd gennych o dan y Contract hwn ar gyfer eich cwrs. Dim ond i'r unigolyn neu'r sefydliad a dalodd y ffioedd y gwneir ad-daliadau, oni bai ein bod yn cytuno'n ysgrifenedig fel arall. Ni wneir unrhyw ad-daliadau am unrhyw daliadau eraill, megis ffioedd rhentu am lety a fydd yn cael eu rheoli drwy gontract gwahanol.

Os byddwch yn penderfynu canslo'r Contract hwn ar ôl y cyfnod canslo 14 diwrnod, efallai na fydd y Coleg yn ad-dalu'r taliadau a dderbyniwyd gennych. Yn dibynnu ar pa bryd y byddwch yn canslo'r Contract (yn arbennig, boed hynny cyn neu ar ôl cofrestru) efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cyfran o'ch ffioedd dysgu, fel y nodir isod.

Os byddwch yn cofrestru ac yn dechrau eich cwrs o fewn y cyfnod canslo 14 diwrnod, bydd ad-daliadau'n cael eu rheoli yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y tabl polisi ad-dalu ffioedd blaendal a nodir isod.

Bydd CBCDC yn gwneud yr ad-daliad heb oedi gormodol a bydd yn prosesu'r ad-daliad ddim hwyrach na 14 diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei hysbysu am eich penderfyniad i ganslo'r Contract hwn. Fodd bynnag, cyn y gallwn brosesu'r ad-daliad rhaid i chi allu dangos i'n boddhad eich bod wedi aros yn eich gwlad breswyl, wedi dychwelyd yno, neu os yw'n berthnasol bod gennych statws fisa dilys arall ar gyfer eich presenoldeb yn y DU. Mae hyn er mwyn sicrhau y gallwn gydymffurfio â'n rhwymedigaethau i Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI).

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r polisi ad-dalu ffioedd blaendal ar ôl y cyfnod canslo 14 diwrnod:

| **Rheswm dros ad-daliad** | **Swm yr ad-daliad** |
|---|---|
| Mae cwrs neu gynnig yn cael ei ddiddymu neu ei newid yn sylweddol gan CBCDC cyn Cofrestru. | Ad-daliad llawn. |
| Cais am ad-daliad wedi'i wneud ar ôl i CAS gael ei roi ond heb ei ddefnyddio. | Ad-daliad llai ffi weinyddu o £200. |
| Hysbysiad gwrthod fisa wedi'i dderbyn, a'ch bod wedi gweithio gyda thîm Cyngor ar Fyfyrwyr Rhyngwladol a Mewnfudo (IISA) PDC a CBCDC i gynnal Adolygiad Gweinyddol, ond roedd y canlyniad yn aflwyddiannus. | Ad-daliad llawn os nad yw'n bosibl i chi ohirio tan y garfan nesaf/nad ydych yn dymuno gohirio. |
| Hysbysiad gwrthod fisa wedi'i dderbyn ond dim ymgysylltiad ar ran yr ymgeisydd â'r broses Adolygiad Gweinyddol neu os byddwch yn methu â hysbysu Tîm Cyngor ar Fyfyrwyr Rhyngwladol a Mewnfudo (IISA) PDC a CBCDC mewn da bryd am wrthod fisa (rhaid rhoi hysbysiad o wrthod fisa a dogfennaeth gwrthod i'r tîm Ymholiadau a Derbyniadau ddim hwyrach nag 20 diwrnod ar ôl y dyddiad gwrthod) | Ad-daliad llai ffi weinyddol o £1,000 sy'n trosglwyddo cyfran uwch o gostau PDC a CBCDC o brosesu'r cais a'r risg o sancsiwn rheoleiddiol. Sylwer: bydd cymryd rhan yn y broses adolygiad gweinyddol yn lleihau'r ffi hon i ddim. Bydd PDC a CBCDC yn gweithredu i gefnogi ymgeisydd i sicrhau, os gwneir penderfyniad anghywir, yr apelir yn ei erbyn mewn Adolygiad Gweinyddol i wneud yn siŵr bod gennych Hanes Mewnfudo clir ar gyfer unrhyw geisiadau am fisa yn y dyfodol. |
| Unrhyw ddichell, twyll, camliwiadau a/neu ddogfennaeth ffug a ddefnyddiwyd fel rhan o gais am fisa a/neu a ddefnyddiwyd fel rhan o'ch cais i CBCDC neu Brifysgol De Cymru ar unrhyw gam o'r cais neu gofrestru, gan gynnwys unrhyw wybodaeth neu ddatganiadau a roddir yn uniongyrchol i CBCDC, PDC neu i asiant neu reolwr yn y wlad; ac yn cynnwys dichell, twyll, camliwiadau, neu ddogfennaeth ffug trwy hepgoriad. | Dim ad-daliad. |
| Hysbysiad gwrthod fisa wedi'i dderbyn ar sail dogfennau anaddas sy'n wahanol i'r rheini a ddarparwyd ar adeg y cais CAS ac nad oeddent wedi'u dilysu fel rhai addas gan dîm IISA PDC. | Ad-daliad llai ffi weinyddol o £1,000 sy'n trosglwyddo cyfran uwch o gostau PDC a CBCDC o brosesu'r cais a'r risg o sancsiwn rheoleiddiol. |
| Ymgeiswyr sy'n destun y Trefniant Gwahaniaethu (a adwaenir fel arall yn gyffredin fel risg isel) – mae UKVI yn gofyn i chi ddarparu'ch dogfennau a naill ai'n methu â'u darparu neu'n derbyn cais gwrthod fisa. | Ad-daliad llai ffi weinyddol o £1,000 sy'n trosglwyddo cyfran uwch o gostau PDC a CBCDC o brosesu'r cais a'r risg o sancsiwn rheoleiddiol. |

| **Rheswm dros ad-daliad** | **Swm yr ad-daliad** |
|---|---|
| Rydych yn canslo eich cais ar ôl sicrhau fisa a theithio i'r DU, o fewn 14 diwrnod i ddechrau eich Cwrs | Dim ad-daliad heb dystiolaeth i dîm IISA PDC a boddhad CBCDC yn cadarnhau eich bod wedi dychwelyd i'ch mamwlad. Ar ôl derbyn tystiolaeth berthnasol ad-daliad llai ffi weinyddol o £500 sy'n adlewyrchu costau uwch prosesu'r cais a cholli cyfle i CBCDC ar ôl i CAS gael ei roi a'i ddefnyddio. |
| Rydych chi'n canslo'ch cais ar ôl cael fisa ond cyn teithio i'r DU | Dim ad-daliad heb dystiolaeth i dîm IISA PDC a boddhad CBCDC bod eich fisa wedi'i ganslo.<br><br>Ar ôl derbyn tystiolaeth berthnasol, ad-daliad llai ffi weinyddol o £500 sy'n adlewyrchu costau uwch prosesu'r cais a cholli cyfle i CBCDC ar ôl i CAS gael ei roi a'i ddefnyddio. |

b) Ni ad-delir ffioedd ar gyfer cyrsiau sy'n ddyledus ac yn daladwy yn llawn ar neu cyn dyddiad dechrau'r cwrs.

c) Codir y tâl canlynol am ffioedd ar gyfer cyrsiau sy'n ddyledus ond nad ydynt yn daladwy yn llawn ar neu cyn i'r cwrs ddechrau fel a ganlyn:

   a. Bydd myfyrwyr sy'n tynnu allan yn ystod y tymor cyntaf, ond cyn dechrau'r ail dymor, yn atebol am 50% o'r ffi ddysgu flynyddol.

   b. Bydd myfyrwyr sy'n terfynu eu hastudiaethau ar ôl dechrau'r ail dymor, ond cyn dechrau'r trydydd tymor, yn atebol am 75% o'r ffi ddysgu flynyddol.

   c. Bydd myfyrwyr sy'n terfynu eu hastudiaethau ar ddechrau neu ar ôl dechrau eu trydydd tymor yn atebol i dalu ffioedd dysgu llawn.

3. **Ysgoloriaethau**

Dyfernir ysgoloriaethau a gymeradwyir ar gyfer myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ar y sail y bydd myfyrwyr yn cwblhau blwyddyn lawn o astudiaeth. Os bydd myfyrwyr yn rhoi'r gorau i'w astudiaethau, gostyngir yr ysgoloriaeth yn unol â hynny ar sail pro-rata ac fe'i cyfrifir fel a ganlyn:

a) Ni fydd gan fyfyrwyr sy'n terfynu eu hastudiaethau o fewn 14 diwrnod i ddyddiad cychwyn swyddogol y cwrs hawl i unrhyw ran o'u hysgoloriaeth.

b) Bydd gan fyfyrwyr sy'n terfynu eu hastudiaethau ar ôl y cyfnod 'gras' ond cyn diwedd y tymor cyntaf hawl i draean o'u hysgoloriaeth.

c) Bydd gan fyfyrwyr sy'n terfynu eu hastudiaethau yn ystod yr ail dymor hawl i ddwy ran o dair o'u hysgoloriaeth.

d) Budd gan fyfyrwyr sy'n terfynu eu hastudiaethau ar ddechrau'r trydydd tymor hawl i'w hysgoloriaeth lawn.

## 4. Sut i wneud cais am / derbyn ad-daliad

Dylid gwneud ceisiadau am ad-daliadau yn ysgrifenedig i Adran Gyllid y Coleg.
Dylid anfon ceisiadau e-bost i finance@rwcmd.ac.uk

Dim ond i'r talwr ffioedd gwreiddiol y bydd ad-daliadau ffioedd dysgu yn cael eu gwneud. Caiff ad-daliadau eu prosesu trwy ein partner talu. Lle na allwn ad-dalu i'r talai gwreiddiol, gofynnir i fyfyrwyr lenwi ffurflen ar-lein gan ein partner talu gan ddarparu manylion cyfrif banc ar gyfer taliad.

Ni fydd gan fyfyrwyr sydd wedi cymryd benthyciad ffioedd dysgu hawl i gael ad-daliad yn uniongyrchol gan y Coleg. Bydd y Coleg yn hysbysu CBM o atebolrwydd ffioedd dysgu myfyriwr, a bydd CBM yn diwygio atebolrwydd benthyciad ffioedd dysgu myfyriwr yn unol â hynny.